Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Canllawiau ar gyfer tystion heddlu mewn ymchwiliadau IOPC

Chwefror 2026

# CYNNWYS

**Cyflwyniad** ..... **3**
Pwrpas y canllawiau ..... 3
I bwy mae'r canllawiau yn berthnasol? ..... 3
Dyletswydd i gydweithredu – fframwaith gyfreithiol ..... 4
Categorïau arbennig o dystion heddlu ..... 6
**Yr hyn y gall tystion heddlu ddisgwyl gan IOPC** ..... **7**
Cadarnhau statws fel tyst heddlu ..... 7
Beth i'w ddisgwyl wrth ddarparu cyfrif tyst heddlu ..... 8
Cymryd cyfrifon tyst trwy gyfweliad neu ddatganiad ysgrifenedig ..... 9
**Disgwyliadau ar gyfer tystion heddlu mewn ymchwiliadau IOPC** ..... **12**
Disgwyliadau o dystion heddlu ..... 12
Ein dull os na fydd tystion heddlu yn cydweithredu gyda'n hymchwiliadau ..... 13

# 1. Cyflwyniad

## Pwrpas y canllawiau

1.1. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn ymchwilio’n annibynnol i ddigwyddiadau difrifol a sensitif, a chyhuddiadau yn ymwneud â’r heddlu. Mae hyn yn cynnwys marwolaethau neu anafiadau difrifol (DSI) yn dilyn cysylltiad gyda’r heddlu.

1.2. Mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd swyddogion a staff heddlu sy'n tystio digwyddiad sy’n cael ei ymchwilio gan IOPC yn rhoi adroddiad llawn ac eglur o'r hyn a welsant, pa gamau a gymerasant neu na gymerasant, ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaethant. Mae'n fuddiol i bawb bod ymchwiliadau yn cael eu cwblhau cyn gynted a phosib, gan ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol. Mae gan IOPC a'r heddlu amcan cyffredin o gyflawni'r nod hwn.

1.3. Pwrpas y canllaw anstatudol hwn yw egluro beth all tystion heddlu ddisgwyl gan IOPC a beth mae'r IOPC yn disgwyl gan dystion heddlu yn ein hymchwiliadau. Trwy osod y disgwyliadau’n glir, rydym yn anelu at gefnogi tystion heddlu i helpu ein hymchwiliadau ac i sicrhau casglu'r dystiolaeth orau a chwblhau achosion yn gyflym.

## I bwy mae’r canllawiau yn berthnasol?

1.4. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i dystion heddlu mewn ymchwiliadau annibynnol dan gyfarwyddyd IOPC i farwolaethau ac anafiadau difrifol (DSI), cwynion a materion ymddygiad. Efallai bydd lluoedd heddlu hefyd eisiau ystyried cymhwyso'r egwyddorion yn y canllaw hwn i dystion heddlu sy'n rhan o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan eu adrannau safonau proffesiynol eu hunain.

1.5. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i bob tyst heddlu mewn ymchwiliadau IOPC, heb law am y rheini sy'n gweithredu mewn capasiti o dyst arbenigol (er enghraifft arbenigwr pwnc “defnyddio grym”).

1.6. Gall tyst heddlu fod yn:

- swyddog heddlu
- cwnstabl arbennig o dan gyfarwyddyd a rheolaeth prif swyddog
- aelod o staff heddlu (sy’n cynnwys y rheiny sydd â phwerau penodedig o dan adran 38(2) o’r *Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002*: swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, swyddogion cadw, swyddogion ymchwilio a swyddogion tywys)
- aelod o staff wedi’i gontractio
- person sy’n gwasanaethu gyda’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol

1.7. Mae'r disgwyliadau cyffredinol a amlinellir yn y canllawiau hyn hefyd yn estyn i unigolion sy'n gweithio i sefydliadau eraill o fewn cylch gorchwyl IOPC ac sydd wedi tystio materion dan ymchwiliad gan IOPC yn ystod eu dyletswyddau proffesiynol.

1.8. Mewn achos lle caiff person ei adnabod fel tyst heddlu, mae'n golygu bod yr ymchwilydd yn credu eu bod yn gallu darparu tystiolaeth tyst sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Mae hefyd yn golygu bod yr ymchwilydd wedi asesu, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, nad yw'r person yn cael ei drin fel gwrthrych yr ymchwiliad. Caiff person ei ddynodi'n wrthrych os oes arwydd y gallent fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau gweithdrefnau disgyblu.

1.9. Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i wrthrychau ymchwiliadau a nid oes unrhyw beth yn y canllawiau hyn sy'n ymyrryd gyda hawliau unigolion sy'n cael eu categoreiddio fel gwrthrychau.

# Dyletswydd i gydweithredu – fframwaith gyfreithiol

1.10. Mae IOPC yn disgwyl i bob tyst heddlu gydweithredu'n llawn, yn agored ac yn broffesiynol gyda ymchwiliadau IOPC. Mae'r disgwyliadau cyffredinol a osodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i bob tyst heddlu, fel y disgrifir ym mharagraff 1.8.

1.11. Mae'r fframwaith gyfreithiol sy'n sylfaen i'r dyletswydd i dystion heddlu gydweithredu ag ymchwiliadau IOPC yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o dystion heddlu. Caiff y fframwaith gyfreithiol berthnasol ei nodi isod.

### Dyletswydd i gydweithredu ar gyfer swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu

1.12. Mae angen i dystion heddlu sy'n gwasanaethu fel swyddogion heddlu gydweithredu ag ymchwiliadau IOPC o dan safon dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddygiad proffesiynol. Mae'r safon hon yn nodi:

> *Mae swyddogion heddlu yn ddiwyd wrth arfer eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae gan swyddogion heddlu gyfrifoldeb i gydweithredu'n briodol yn ystod ymchwiliadau, ymchwiliadau manwl a gweithdrefnau ffurfiol, gan gymryd rhan yn agored ac yn broffesiynol yn unol â disgwyliadau ar gyfer swyddogion heddlu pan y caiff ei adnabod fel tyst.*

1.13. Mae canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn egluro ymhellach sut mae'r dyletswydd i gydweithredu yn rhan o'r safon hon:

> *[Mae'r safon dyletswyddau a chyfrifoldebau] yn atgyfnerthu'r cyfrifoldeb sydd gan swyddog heddlu i gydweithredu'n llawn pan fyddant yn dyst mewn ymchwiliad, ymholiad neu weithdrefnau ffurfiol eraill. Y cyfrifoldeb yw cymryd rhan yn agored ac yn broffesiynol fel tyst mewn amrywiaeth o amgylchiadau gan gynnwys pan fydd y swyddog yn dyst mewn ymchwiliad i gamymddygiad swyddogion eraill, boed hynny'n ymchwiliad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) neu gan y llu ei hun. Rhaid gosod amod clir ar y dyletswydd ei bod hi'n berthnasol yn benodol pan mai tyst yw statws y*

*swyddog, ac nid yw'n berthnasol yn yr un modd pan mai statws y swyddog yw gwrthrych yr ymchwiliad, a phan mae rhaid i'r hawl i aros yn dawel gael ei gynnal.*

1.14. Nid yw'r safonau ymddygiad proffesiynol sr gyfer swyddogion heddlu yn berthnasol i staff yr heddlu. Mae staff yr heddlu fel arfer yn atebol i safonau tebyg fel rhan o'u telerau cyflogaeth, er nid yw rhain o reidrwydd yn cynnwys yr un dyletswydd i gydweithredu mewn ymchwiliadau.

1.15. Nid yw'r safonau ymddygiad proffesiynol ychwaith yn berthnasol i'r heddlu sydd ddim bellach yn gwasanaethu. Serch hynny, mae IOPC yn annog cyn-swyddogion heddlu a staff heddlu i gydweithredu'n briodol yn ystod ymchwiliadau. Bydd cydweithrediad gan gyn-swyddogion a staff heddlu yn helpu IOPC i gwblhau ymchwiliadau mewn modd cyflym ac effeithiol, sydd yn ddymunol i bawb o dan sylw.

**Y pŵer i orfodi tystion heddlu sy'n gwasanaethu (swyddogion a staff) i fynychu cyfweliad**

1.16. O dan Reoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2013, mae gan IOPC yr awdurdod i orfodi tystion heddlu sy'n gwasanaethu i fynychu cyfweliad tyst. Mae'r pŵer i orfodi tystion heddlu i fynychu cyfweliadau yn berthnasol i swyddogion heddlu a staff sy'n gwasanaethu.

1.17. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i dystion heddlu sy'n gwasanaethu gyda'r 43 o luoedd heddlu'r Swyddfa Gartref yn Lloegr a Chymru neu sy'n gwasanaethu gyda 'corff heddlu ychwanegol' fel y nodir ym Mharagraff 19F(7), Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae hyn yn cynnwys yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, cyrff sydd angen gwneud cytundeb adran 26BA gyda ni, a'r cyrff heddlu hynny a restrir yn Rheoliad 3 o Reoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2013.

1.18. Mae'r rheoliadau yn nodi y dylai'r ymchwilydd, lle y bo'n resymol ymarferol, gytuno ar ddyddiad ac amser ar gyfer cyfweliad gyda'r tyst heddlu. Os na ellir cytuno ar hyn, dylai'r ymchwilydd bennu dyddiad ac amser. Os nad yw'r tyst heddlu ar gael i ddod am gyfweliad ar y dyddiad a bennwyd, rhaid iddynt gynnig dyddiad ac amser rhesymol o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad a bennwyd gan yr ymchwilydd.

**Dyletswydd i brif swyddogion sicrhau agoredrwydd a gonestrwydd o fewn eu llu**

1.19. Yn Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Coleg Plismona Cod Ymarfer Plismona Moesegol statudol o dan adran 39A o *Ddeddf yr Heddlu 1996*. Mae'n berthnasol i'r heddluoedd ar draws ardaloedd heddlu Lloegr a Chymru, fel y diffinnir yn adran 1 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (neu fel y diffinnir mewn unrhyw ddeddfwriaeth dilynol). O dan y Cod Ymarfer, mae gan brif swyddogion ddyletswydd i sicrhau agoredrwydd a gonestrwydd o fewn eu llu, sydd yn cynnwys:

- sicrhau bod y sefydliad a'r holl gydweithwyr o fewn y sefydliad yn wynebu craffu gan y cyhoedd (yn cynnwys ymholiadau a chwestau cyhoeddus) gyda gonestrwydd, mewn modd agored, gonest, a thryloyw, gan ddatgelu

dogfennau perthnasol yn llawn, yn ogystal â deunyddiau a ffeithiau i gynorthwyo'r ymgais am y gwirionedd

- annog ymddygiad sy'n rhoi budd y cyhoedd o flaen ystyriaethau personol a sefydliadol, lle bo gwrthdaro buddiannau yn digwydd

1.20. Er bod y ddyletswydd hon dim ond yn berthnasol i'r prif swyddogion, mae'n gosod disgwyliad y bydd prif swyddogion yn sicrhau bod eu lluoedd yn wynebu craffu cyhoeddus mewn ffordd agored a thryloyw.

## Categorïau arbennig o dystion heddlu

1.21. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob tyst heddlu (fel y nodir ym mharagraff 1.8). Fodd bynnag, mae dau gategori arbennig o dyst heddlu, lle mae canllawiau neu ystyriaethau ychwanegol hefyd yn gymwys. Y rhain yw **tystion heddlu allweddol** a **thystion arwyddocaol**.

1.22. Mewn ymchwiliadau IOPC, bydd yr ymchwilydd IOPC yn cadarnhau, cyn gynted â phosib, ble mae'r categorïau hyn yn berthnasol. Gall hyn ddilyn asesiad cychwynnol i adnabod tystion heddlu allweddol sy'n rhaid i'r llu heddlu wneud ar safle'r digwyddiad cyn i IOPC ddod i'r lleoliad pan mae gweithdrefnau ôl-ddigwyddiad ar waith. (Gweler canllawiau'r Coleg Plismona ar weithdrefnau ôl-ddigwyddiad yn dilyn marwolaeth neu anaf difrifol, ac ar ôl-weithredu lle bydd marwolaeth neu anaf difrifol yn deillio o ddefnyddio arf tanio, arf llai marwol, neu arf arbenigol.)

### Tystion heddlu allweddol mewn ymchwiliadau yn ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol

1.23. Mae'r categori o 'dyst heddlu allweddol' dim ond yn berthnasol mewn ymchwiliadau sy'n cynnwys marwolaeth neu anaf difrifol.

1.24. Tyst heddlu allweddol yw rhywun sydd wedi cymryd rhan sylweddol mewn, ac/neu sydd wedi tystio, neu yn honni eu bod wedi tystio, yn weledol neu fel arall, y cwbl neu ran o farwolaeth neu anaf difrifol, neu ddigwyddiadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hyn. Gall hyn gynnwys pobl sy'n anuniongyrchol gysylltiedig. (Er enghraifft, deliwr galwadau neu ymgynghorydd arfau tanio tactegol).

1.25. Rhaid i dystion heddlu allweddol ystyried canllawiau statudol IOPC ar weithdrefnau ôl-ddigwyddiad. Mae hyn yn golygu y dylent gydymffurfio â'r canllawiau neu ddarparu rheswm cadarn pam nad ydynt yn dilyn y canllawiau. Mae'r canllawiau statudol hyn yn sefydlu gofynion i beidio â chyfathrebu â phobl eraill a oedd yn bresennol yn y digwyddiad, cyn ac ar ôl darparu cofnodion, yn ogystal â'r dyletswydd i gadw tystiolaeth. Mae hefyd yn nodi disgwyliadau i dystion allweddol ddarparu cyfrif cychwynnol personol.

### Tystion arwyddocaol

1.26. Gellir dynodi tyst heddlu fel 'tyst arwyddocaol' gan yr ymchwilydd mewn ymchwiliad IOPC. Defnyddir y categori 'tyst arwyddocaol' mewn ymchwiliadau troseddol, fel y nodir yng nghanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyflawni'r

dystiolaeth orau mewn erlyniadau troseddol. Yng nghanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, diffinnir tystion arwyddocaol fel y rheini sydd naill ai:

- wedi gweld neu yn honni eu bod wedi gweld trosedd dditiadwy, rhan o drosedd o'r fath neu ddigwyddiadau sy'n agos o gysylltiedig

- sydd â chysylltiad penodol â'r dioddefwr neu sydd â safle canolog mewn unrhyw ymchwiliad i drosedd dditiadwy

1.27. Gall IOPC hefyd benderfynu dynodi tystion heddlu fel tystion arwyddocaol mewn achosion difrifol eraill. Gall hyn gynnwys ymchwiliadau i farwolaeth neu anaf difrifol lle mae Erthygl 2 yn berthnasol ac efallai yn berthnasol i dystion sydd wedi gweld, er enghraifft, y rhyngweithiad rhwng y meirw a'r heddlu ar, neu'n fuan cyn, amser y marwolaeth.

1.28. Bydd dynodi rhywun fel tyst arwyddocaol yn effeithio ar sut caiff tystiolaeth y tyst ei gofnodi i sicrhau bod cyfrif y tyst wedi'i gofnodi'n fanwl. Bydd IOPC fel arfer yn recordio cyfweliadau gyda fideo neu sain i gasglu cyfrifon oddi wrth dystion arwyddocaol, oni bai bod y tyst yn gwrthwynebu'r recordio. Mae recordio cyfweliadau tystion arwyddocaol fel hyn yn bwysig, oherwydd mae'n debygol o:

- gynyddu maint ac ansawdd y wybodaeth a gafwyd gan y tyst
- gynyddu maint y wybodaeth a adroddwyd gan y tyst sy'n cael ei recordio
- sicrhau tryloywder yn y broses gyfweld

1.29. Os nad yw'r tyst heddlu yn cytuno i'r cyfweliad gael ei recordio ar fideo neu sain, bydd ymchwilydd IOPC yn dogfennu'r penderfyniad a'r rhesymau a roddwyd. Mae hyn i sicrhau ein bod yn gallu egluro pam bod y broses gyfweld yn dargyfeirio o'r dull arferion gorau a nodir yng nghanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 2. Yr hyn y gall tystion heddlu ddisgwyl gan IOPC

2.1. Mae'r adran hon yn nodi, mewn termau cyffredinol, prosesau a gweithdrefnau IOPC i gymryd cyfrifon gan dystion heddlu a beth y gall tystion heddlu ddisgwyl gan IOPC wrth iddynt gyfathrebu â'n gwasanaeth.

2.2. Mae tystion heddlu yn ddefnyddwyr gwasanaeth pwysig i IOPC ac mae'r dystiolaeth a ddarparant yn hanfodol i'n hymchwiliadau. Bydd IOPC yn trin tystion heddlu gyda chwrteisi a pharch ym mhob cyfathrebiad â nhw.

## Cadarnhau statws fel tyst heddlu

2.3. Bydd ymchwilydd IOPC yn cadarnhau cyn gynted â phosib pa unigolion fydd yn cael eu trin fel tystion heddlu ar gyfer dibenion ymchwiliad. Byddant hefyd yn cadarnhau os ydynt yn cael eu hystyried fel tyst heddlu allweddol neu tyst arwyddocaol mor gynnar â phosib (gweler paragraffau 1.21-1.29).

2.4. Bydd yr ymchwilydd yn cadw statws tystion heddlu a gwrthrychau o dan adolygiad, wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r wyneb. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd unigolion a adnabyddir fel tystion heddlu ar ddechrau ymchwiliad yn parhau i fod yn dystion trwy gydol y broses. Fodd bynnag, gall ddigwydd bod tystiolaeth ychwanegol yn dod i'r amlwg sy'n dangos y dylid trin tyst fel gwrthrych.

2.5. Os, yn ystod ymchwiliad, bydd ymchwilydd yn ystyried bod yna arwydd bod tyst heddlu wedi cyflawni trosedd posib neu wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau cynnal gweithdrefnau disgyblu, bydd y tyst yn cael ei ail-ddynodi fel gwrthrych yr ymchwiliad. Byddwn dim ond yn cymryd y cam hwn pan fo'n briodol i wneud hynny, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, ac fe fyddwn yn cyfathrebu'r penderfyniad yn glir ac yn broffesiynol i'r unigolyn dan sylw. Bydd yr ymchwilydd yn rhoi gwybod i'r person am y newid yn ei statws gyda hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol. Bydd yr hysbysiad yn nodi hawliau'r person fel gwrthrych a'r honiadau yn eu herbyn. Bydd hefyd yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r penderfyniad (mae hyn yn ddibynnol ar y prawf niwed, fel ei ddiffinnir yn rheoliad 6 o Reoliadau (Ymddygiad) Heddlu 2020).

2.6. Gall unrhyw gyfrif tyst a roddir cyn i'r person gael ei wneud yn wrthrych barhau i gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymchwilydd barhau i gymryd cyfrif tyst unwaith daw yn amlwg y dylid trin y tyst fel gwrthrych. Os digwyddir hyn yn ystod cyfweliad tyst heddlu, bydd yr ymchwilydd yn stopio'r cyfweliad yn syth, a bydd y tyst yn cael eu cynghori bod eu statws tyst yn cael ei adolygu. Os penderfynir y bydd y tyst yn cael eu trin fel gwrthrych, byddant yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol, a bydd cyfweliad gwrthrych gwahanol yn cael ei drefnu.

## Beth i'w ddisgwyl wrth ddarparu cyfrif tyst heddlu

2.7. Bydd ymchwilydd IOPC yn cysylltu â thystion heddlu i roi gwybod iddynt eu bod wedi'u dynodi fel tystion ac i esbonio, cyn belled â phosibl, ffiniau a phwrpas yr ymchwiliad a sut y gallent helpu.

2.8. Yn benodol, byddwn yn darparu manylion iddynt ynglŷn â:

- pham fod y digwyddiad yn cael ei ymchwilio
- natur y digwyddiadau y gallai'r tyst heddlu fod wedi eu gweld
- unrhyw ddatganiad sy'n addas i alluogi'r tyst heddlu roi ei gyfrif tystio (caiff hyn ei benderfynu gan yr ymchwilydd IOPC ac mi fydd e wastad yn atebol i'r prawf niwed)

2.9. Ein nod yw casglu cyfrifon tystion heddlu mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r dystiolaeth orau ac yn cwblhau ymchwiliadau yn brydlon. O fewn hyn, ceisiwn ganiatáu lle i geisiadau rhesymol, gan gynnwys ynghylch:

  - amser, dyddiad a lle y cyfweliadau
  - trefniadau i ddarparu cysur a chefnogi llesiant

2.10. Mae IOPC yn darparu gwasanaethau yn y Saesneg ac yn y Gymraeg. Byddwn yn gofyn i dystion heddlu, lle bo'n briodol, os fyddai'n well ganddynt gyfathrebu â ni yn y naill iaith neu'r llall a byddwn yn cyfathrebu â hwy yn ôl eu dewis. Byddwn yn darparu'r un lefel o wasanaeth, yn annibynnol o'u dewis rhwng y Saesneg neu'r Gymraeg.

2.11. Mae gan IOPC bolisi addasiadau rhesymol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n berthnasol i dystion heddlu. Byddwn yn gofyn i dystion heddlu a oes ganddynt anabledd neu angen unrhyw addasiadau yn ystod ein cyswllt â nhw.

2.12. Byddwn yn cymhwyso egwyddorion canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â chasglu'r dystiolaeth orau mewn gweithdrefnau troseddol wrth gyfweld â thystion heddlu bregus neu ofnus, fel y'i diffinnir yng nghanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

2.13. Gall tyst heddlu ofyn i'w hunaniaeth gael ei ddiogelu yn nghyd-destun ymchwiliad IOPC, lle mae seiliau rhesymol i wneud hynny. Byddwn yn ystyried unrhyw gais o'r fath yn unol â pholisi IOPC ar enwi swyddogion heddlu a staff heddlu. Cyn gwneud penderfyniad, efallai y byddwn yn ceisio cadarnhad o'r sail dros wneud y gais, er enghraifft gorchymyn anhysbysrwydd tyst a roddwyd gan lys. Os yw IOPC yn penderfynu ei fod yn briodol, byddwn yn dileu enw'r tyst neu'n defnyddio ffugenw yn ei le. Fodd bynnag, pan fydd gweithdrefnau yn dilyn ymchwiliad, bydd yn fater i'r llys neu dribiwnlys perthnasol benderfynu yn y pen draw a oes gan y tyst anhysbysrwydd yn yr achos.

## Cymryd cyfrifon tyst trwy gyfweliad neu ddatganiad ysgrifenedig

2.14. Bydd ymchwilydd IOPC yn penderfynu sut y dylid darparu cyfrifon tystion heddlu, sef a ddylai tyst yr heddlu fynychu cyfweliad tyst neu ddarparu datganiad ysgrifenedig ganddo'i hun. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd yr ymchwilydd yn ystyried natur y dystiolaeth gallai'r tyst ei rhoi, a sut i sicrhau'r dystiolaeth orau a chyflymu'r ymchwiliad.

2.15. Mewn ymchwiliadau IOPC, bydd yn aml yn briodol i gyfrifon mwyaf pwysig y tystion heddlu gael eu cymryd trwy gyfweliad. Mae hyn yn caniatáu i gyfrif y tyst gael ei archwilio mewn manylder. Mae cyfraith achosion yn cefnogi bod cynnal cyfweliadau gyda thystion heddlu sydd yn ganolog i achos difrifol, yn briodol ac yn gymesur. Yn arbennig mewn achosion lle gall Erthygl 2 neu Erthygl 3 o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) gael ei weithredu (gweler er enghraifft R (Dunne) v IOPC [2023] EWHC 3300 (Admin)).

2.16. Mae'r mathau o ymchwiliadau IOPC lle efallai y bydd angen cyfweliad tyst ar gyfer rhai neu bob un o'r tystion heddlu yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- ymchwiliadau lle gallai Erthygl 2 neu 3 o'r ECHR fod yn berthnasol (hawl i fywyd a hawl i ryddid rhag artaith/triniaeth annynol)
- ymchwiliadau troseddol

- ymchwiliadau i gamymddwyn difrifol
- ymchwiliadau lle mae IOPC yn asesu bod lefel uchel o fudd cyhoeddus neu effaith sylweddol ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu
- ymchwiliadau lle mae problemau posib wedi'u darganfod ynglŷn â phenderfyniadau neu weithredoedd tystion heddlu, lle nad ydynt yn cyfateb i arwydd o droseddu neu gamymddwyn, ond lle mae IOPC yn ystyried y gall fod yna gyfleoedd ar gyfer dysgu unigol, neu arfer sy'n gofyn am welliant ac y gall cyfweliad helpu'r asesiad hwn

2.17. Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn i dyst heddlu fynychu cyfweliad tyst lle maent wedi canfod y digwyddiad sy'n cael ei ymchwilio yn uniongyrchol neu wedi chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r digwyddiad. Bydd hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, tystion heddlu sydd wedi'u dynodi fel prif dystion heddlu neu dystion arwyddocaol. Os oedd rôl tyst yn ymylol i'r digwyddiadau dan ymchwiliad, bod eu tystiolaeth yn syml iawn, neu os na welsant y digwyddiadau'n uniongyrchol, efallai byddwn yn penderfynu bod datganiad tyst ysgrifenedig gan y tyst yn ddigon.

**Mynychu cyfweliad tyst**

2.18. Pan fydd yr ymchwilydd IOPC yn penderfynu y dylai tyst heddlu fynychu cyfweliad i roi eu cyfrif tyst, bydd yr ymchwilydd yn cysylltu â'r tyst heddlu i drefnu'r cyfarfod.

2.19. Lle bo'n resymol ymarferol, bydd yr ymchwilydd yn trefnu amser, dyddiad a lleoliad wedi'u cytuno gyda'r tyst i gynnal y cyfweliad tyst. Bydd yr ymchwilydd yn penderfynu a fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn bersonol neu'n rithiol (e.e. trwy gyswllt fideo).

2.20. Pan yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod, bydd yr ymchwilydd IOPC yn ystyried ceisiadau rhesymol i gynnwys anghenion a threfniadau gwaith y tyst heddlu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig casglu cyfraniadau tystion cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad i gefnogi casglu'r dystiolaeth orau a chwblhau'r ymchwiliadau yn amserol. Nid yw'n debygol y cytunwn i oedi estynedig, oni bai bod amgylchiadau eithriadol ac efallai y bydd angen tystiolaeth arnom i gefnogi hyn. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth feddygol os nad yw'r tyst heddlu yn gallu mynychu cyfweliad am gyfnod estynedig oherwydd afiechyd. Neu efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth o batrymau shifft neu wyliau blynyddol a gymeradwywyd ymlaen llaw, os yw'n berthnasol.

2.21. Mae gan yr ymchwilydd IOPC y pŵer i orfodi tystion heddlu sy'n gwasanaethu i fod yn bresennol mewn cyfweliad, o dan Reoliadau (Cwynion ac Ymddygiad) Heddlu 2013 (gweler paragraffau 1.16-1.18). O dan y rheoliadau hyn, os na ellir cytuno ar ddyddiad ac amser ar gyfer cyfweliad tyst, rhaid i'r ymchwilydd osod dyddiad ac amser ar gyfer y cyfweliad. Os nad yw'r tyst heddlu ar gael i fod yn bresennol ar y dyddiad a'r amser hwn, rhaid iddynt awgrymu dyddiad ac amser rhesymol o fewn pum diwrnod gwaith o'r dyddiad a osodwyd gan yr ymchwilydd.

2.1 Pan fydd tyst heddlu yn mynychu cyfweliad tyst (naill ai mewn person neu'n rhithiol) gallent fynychu ar eu pennau eu hunain neu ddewis cael rhywun i fynd gyda nhw. Gallai'r person sy'n dod gyda nhw fod yn ffrind heddlu, yn gyfreithiwr, yn gynrychiolydd undeb llafur neu unrhyw berson arall nad yw'n gysylltiedig â'r mater. Ni ddylai'r person sy'n mynd gyda nhw ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir i'r tyst heddlu yn ystod y cyfweliad.

2.2 Pan fydd tyst heddlu wedi mynychu cyfweliad tyst fel rhan o ymchwiliad IOPC, bydd ymchwilwyr IOPC yn paratoi datganiad tyst o'r atebion a roddwyd. Byddant yn gwneud hyn yn syth (cyn i'r tyst adael y cyfweliad) neu cyn gynted â phosib ar ôl y cyfweliad. Bydd gan y tyst gyfle i adolygu a diwygio neu gywiro'r datganiad cyn ei lofnodi. Bydd y datganiad tyst wedi'i gwblhau yn unol ag adran 9 *Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967* (adran 9 datganiad tyst) ar ffurflen MG11 wedi'i llofnodi. Bydd y dull hwn yn cael ei gymryd ym mhob achos, p'un ag yw'r achos wedi ei ddynodi fel ymchwiliad troseddol ai peidio.

2.3 Mewn rhai achosion efallai y bydd angen i ni ofyn cwestiynau pellach ar ôl y cyfweliad cychwynnol. Os yw hyn yn angenrheidiol, efallai y byddwn ni angen i'r tyst heddlu fynychu cyfweliad arall i egluro neu archwilio unrhyw bwyntiau ychwanegol. Fel arall, efallai y gofynnwn unrhyw gwestiynau pellach yn ysgrifenedig.

**Darparu datganiad tyst hunan-ysgrifenedig**

2.4 Bydd yr ymchwilydd IOPC yn penderfynu a ddylai tyst heddlu ddarparu datganiad tyst hunan-ysgrifenedig. Gall hyn fod pan fyddwn yn asesu bod y dystiolaeth a geisir yn syml neu yn ymylol, ac/neu bod y person ddim wedi tystio’r digwyddiadau'n uniongyrchol na chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r digwyddiad.

2.5 Dylai'r datganiad tyst hunan-ysgrifenedig amlinellu tystiolaeth y tyst heddlu, yn unol ag adran 9 *Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967* (gan ddefnyddio ffurflen MG11 wedi'i llofnodi).

2.6 Bydd tystion heddlu yn cael hyd rhesymol o amser i gyflwyno datganiad tyst ysgrifenedig, pan fydd hyn wedi cael ei ymofyn gan yr ymchwilydd. Fel arfer, byddwn yn disgwyl derbyn datganiad tyst ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod calendr o'r dyddiad rydym yn gwneud y gais. Os nad yw’r tyst heddlu yn gallu darparu datganiad tyst yn yr amser penodedig (neu os yw hyn yn debygol o gael ei oedi), dylent gysylltu â'r ymchwilydd cyn gynted â phosib i egluro pam a darparu dyddiad ar gyfer pryd bydd y datganiad yn cael ei gyflwyno.

2.7 Bydd yr ymchwilydd yn penderfynu a yw'n cytuno i’r estyniad amser. Gallwn hefyd ofyn am dystiolaeth gefnogol, megis tystiolaeth o batrymau shifftiau, absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol a gymeradwywyd o flaen llaw os yw hyn yn effeithio ar y fframwaith amser ar gyfer cyflwyno’r datganiad. Nid yw'n debygol y cytunir ar geisiadau am oedi hir oni bai bod y tyst heddlu ddim yn ddigon ffit i ddarparu datganiad am resymau meddygol, ac efallai y gofynnwn am dystiolaeth feddygol i gefnogi hyn.

2.8 Os ceir oedi estynedig ac afresymol cyn darparu cyfrif ysgrifenedig, efallai bydd yr ymchwilydd yn ystyried gorfodi'r tyst i fynychu cyfweliad yn ôl Rheoliadau’r Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2013 (gweler paragraffau 1.16-1.18).

2.9 Ar ôl adolygu datganiad ysgrifenedig tyst, efallai y gofynnwn i'r tyst fynychu cyfweliad tyst os yw hyn yn angenrheidiol i egluro neu archwilio unrhyw bwyntiau ychwanegol. Fel arall, efallai byddwn yn gofyn i unrhyw gwestiynau pellach gael eu hateb yn ysgrifenedig.

# 3 Disgwyliadau ar gyfer tystion heddlu mewn ymchwiliadau IOPC

3.1 Mae’r adran hon yn amlinellu disgwyliadau IOPC o dystion heddlu o ran eu cydweithrediad gyda ymchwiliadau IOPC. Mae’n amlinellu beth rydym yn ystyried fel cydweithrediad mewn termau cyffredinol, er mwyn cefnogi cyd-ddealltwriaeth o’r hyn mae IOPC ei angen gan y tystion i gwblhau ymchwiliadau amserol ac effeithiol, sydd o fudd i bawb.

## Disgwyliadau o dystion heddlu

3.2 Dylai tystion heddlu gydweithredu â cheisiadau gan ymchwilwyr IOPC i ddarparu cyfrifon tystion. Mae'n fater i ymchwilydd IOPC benderfynu a ddylai tyst heddlu fynychu cyfweliad tyst i roi eu cyfrif neu ddarparu datganiad hunan-ysgrifenedig.

3.3 Dylai tystion heddlu gymryd rhan mewn ymchwiliadau IOPC yn agored ac yn broffesiynol, gan barchu'r broses. Fel rhan o hyn dylent:

- fynychu cyfweliadau tyst wyneb yn wyneb neu'n rhithiol (e.e. trwy gyswllt fideo) os gofynnir iddynt, oni bai bod yr ymchwilydd IOPC wedi cytuno fel arall
- fynychu cyfweliadau ar amser (oni bai bod esboniad rhesymol yn cael ei roi am yr oedi)
- aros am hyd cyfweliad (oni bai bod yr ymchwilydd IOPC wedi cytuno fel arall)
- ddarparu datganiadau tyst ysgrifenedig mewn fformat priodol (e.e. ar ffurflen MG11), o fewn y fframwaith amser a bennir gan yr ymchwilydd IOPC (oni bai bod estyniad wedi cael ei gytuno)
- drin staff IOPC gyda chwrteisi

3.4 Dylai tystion heddlu ddarparu cyfrif llawn a gonest o'r digwyddiadau y maent wedi'u tystio sydd yn berthnasol i'r ymchwiliad. Fel rhan o hyn, dylent:

- ateb unrhyw gwestiynau'n llawn gyda'r wybodaeth sydd gyda nhw ar y pryd
- pan fo angen iddynt fynychu cyfweliad tyst, ateb pob cwestiwn ar lafar, yn ystod y cyfweliad (oni bai y cytunwyd fel arall gan yr ymchwilydd
- darparu'r holl wybodaeth berthnasol i'w gallu gorau, mewn ymateb nid yn unig i'r cwestiynau a'u gofynnir, ond hefyd a'u gwirfoddolir gan y tyst heb ei ofyn
- darparu eu rhesymeg ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wnaethant sy'n berthnasol i'r mater a ymchwilir
- esbonio os nad ydynt yn gallu ateb cwestiwn ar unwaith, ond yn gallu gwneud nes ymlaen (er enghraifft ar ôl gwirio gwybodaeth arall)
- ymateb i unrhyw gwestiynau ategol, dilynol neu geisiadau am eglurhad gan ymchwilydd IOPC ar ôl ymateb neu ddatganiad blaenorol (Bydd yr ymchwilydd yn penderfynu a ddylid darparu atebion ychwanegol trwy gyfweliad pellach neu yn ysgrifenedig ac yn darparu amserlen ar gyfer hyn.)

3.5 Os bydd tystion heddlu yn cael unrhyw anawsterau wrth ddarparu cyfrif tyst llawn a gonest neu fel arall wrth gwrdd â'r disgwyliadau ar gyfer tystion heddlu, dylid eu nodi a'u cyfathrebu i'r ymchwilydd IOPC cyn gynted â phosib. Dylai'r rhain dim ond ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, os yw tyst angen mwy o wybodaeth benodol er mwyn adnabod y digwyddiad mae'n cael ei holi amdano, neu os oes rhesymau meddygol pam na all y tyst ddarparu datganiad ar adeg y gais (wedi'i gefnogi gan dystiolaeth feddygol os oes angen).

3.6 Gall tystion heddlu ddewis gofyn am gyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr a/neu gyngor gan eu cynrychiolydd Ffederasiwn Heddlu neu gynrychiolydd undeb ynglŷn â'u cyfrifon tystio. Fodd bynnag, mae tystion heddlu'n gyfrifol am gynnwys eu cyfrifon tystio, ac am sicrhau bod eu cyfrifon tystio yn agored, yn onest ac yn broffesiynol. Pan geisir cyngor cyfreithiol, ni ddylai hyn oedi darparu'r datganiadau tyst heddlu mewn modd afresymol, na dileu mynychu'r cyfweliadau tystion a chydweithredu ynddynt.

3.7 Yn ogystal â'r uchod, disgwylir i dystion allweddol heddlu mewn ymchwiliadau marwolaethau ac anafiadau difrifol (gweler baragraffau 1.23-1.25) gydymffurfio â chanllawiau statudol IOPC ar weithdrefnau ôl-ddigwyddiad neu fel arall ddarparu rheswm cadarn dros wyro o'r canllawiau.

## Ein dull os na fydd tystion heddlu yn cydweithredu gyda'n hymchwiliadau

3.8 Mae IOPC yn disgwyl i bob tyst heddlu gydweithredu'n llawn gyda'n hymchwiliadau.

3.9 Mae gan dystion heddlu, sydd yn swyddogion sy'n gwasanaethu ac yn atebol i safonau ymddygiad proffesiynol yr heddlu, ddyletswydd i gydweithredu pan fyddant yn dyst mewn ymchwiliad, o dan y safon dyletswyddau a chyfrifoldebau. Gallai diffyg cydweithrediad gan swyddog sy'n gwasanaethu ac sy'n dyst heddlu fod yn doriad o'r safon hon ac fe allai fod yn gyfystyr â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol.

Gallai staff yr heddlu fod yn atebol i ddarpariaethau tebyg o dan eu telerau cyflogaeth.

**Enghreifftiau o ddiffyg cydweithredu**

3.10 Mae enghreifftiau o ddiffyg cydweithredu yn cynnwys, ond ddim wedi'u cyfyngu i:

- Methu cyflwyno datganiad tyst o fewn y cyfnod amser penodedig, heb reswm da.

- Methu mynychu cyfweliad tyst, heb reswm da.

- Gwrthod ateb cwestiynau rhesymol mewn cyfweliad tyst (e.e. aros yn dawel neu ateb 'dim sylw'). Os bydd tyst heddlu yn dweud eu bod nhw'n mynd i ateb 'dim sylw', yna gallai'r cyfweliad gael ei ddiweddu ar unwaith ar sail diffyg cydweithrediad a gall camau pellach gael eu cymryd fel y nodir isod. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r tyst heddlu yn cyflwyno datganiad tyst ysgrifenedig yn ddiweddarach ai peidio.

- Methu ag ateb cwestiynau rhesymol mewn modd amserol nac yn llawn nac yn ddigon manwl (gan gynnwys, lle'n berthnasol, manylion am eu cred onest a'r resymau dros y gred honno).

**Camau byddwn yn cymryd os bydd diffyg cydweithrediad**

3.11 Os yw'r ymchwilydd IOPC yn meddwl bod y tyst heddlu ddim yn cydweithredu, yna byddant, pan yn ymarferol, yn cymryd camau i egluro i'r tyst heddlu:

- seiliau eu cred nad yw'r tyst wedi bod yn cydweithredu gyda'r ymchwiliad a darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn

- beth mae'r tyst angen ei wneud i ddangos eu bod yn cydweithredu

- beth all ddilyn o ganlyniad os na ddaw'r cydweithrediad (gall hyn gynnwys ymchwilio i'r tyst heddlu am dorri safonau dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddygiad proffesiynol am beidio â chydweithredu, os yw'n berthnasol)

3.12 Pan caiff mater o ddiffyg cydweithrediad ei godi gan ymchwilydd IOPC, dylai'r tyst heddlu gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryder cyn gynted â phosibl, fel bod yr ymchwiliad yn gallu symud ymlaen. (Er enghraifft, trwy drefnu cyfweliad yn gyflym, cytuno i ateb cwestiynau neu gyflwyno datganiad tyst sydd yn hwyr.)

3.13 Os bydd y diffyg cydweithrediad yn parhau, a bod y tyst heddlu yn dal i weithio gyda'r heddlu, efallai y penderfynwn uwchgyfeirio'r mater i'r awdurdod priodol (y prif swyddog, neu'r swyddog cyfwerth) fel mater ymddygiad posib.

3.14 Os yw'r tyst heddlu yn swyddog heddlu sy'n gwasanaethu, efallai y byddwn yn gofyn i'r awdurdod priodol recordio a chyfeirio mater ymddygiad ar gyfer y swyddog am dorri'r safon o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ymddygiad proffesiynol o ganlyniad i fethu â chydweithredu.

Fel arall, efallai byddwn yn defnyddio ein pŵer menter i ystyried y mater fel pe bai wedi cael ei gyfeirio at IOPC. Efallai y byddwn wedyn yn penderfynu ymchwilio i'r toriad honedig gyda'r swyddog yn cael ei drin fel gwrthrych ac yn derbyn hysbysiad priodol.

3.15 Os yw'r tyst heddlu yn aelod staff heddlu sy'n gwasanaethu, efallai byddwn yn cymryd camau cyfatebol. Bydd hyn dim ond yn berthnasol pan fydd telerau cyflogaeth yr aelod staff yn cynnwys gofyniad cyfatebol i gydweithredu ag ymchwiliadau IOPC.

3.16 Mae'n bwysig ein bod yn dryloyw ynglŷn ag oedi a rhwystrau wrth gasglu tystiolaeth yn ein hymchwiliadau. O ganlyniad, efallai y byddwn yn cyfeirio at unrhyw faterion o ddiffyg cydweithrediad gan dystion heddlu, neu oedi mewn cydweithrediad, yn yr adroddiad ymchwil terfynol neu adroddiadau corfforaethol eraill.

3.17 Wrth gymryd y camau hyn, yr un yw ein nod o sicrhau cyfrifon gan dystion heddlu mewn modd a fydd yn sicrhau'r dystiolaeth orau ac yn galluogi ein hymchwiliad i gael ei gwblhau yn sydyn. Mae hyn er budd pawb, ac fe wnaethom weithio gyda thystion heddlu a'u cynrychiolwyr i gyflawni hyn a darparu ymchwiliadau prydlon er budd y cyhoedd.

Cyhoeddwyd Chwefror 2026

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2026)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.
Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddigiad yr Heddlu**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Rhif ffôn: **0300 020 0096**
Ebost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID® CSE